# EIN CYMUNEDAU NI, EIN TRAFNIDIAETH NI

**Maniffesto ar gyfer Mudiad Trafnidiaeth Gymunedol Cymru**










cta
community transport association
CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL

# Ein Gweledigaeth ar gyfer Trafnidiaeth Deg yng Nghymru

Mae trafnidiaeth yn seilwaith hanfodol i'n bywydau, yn unigol ac ar y cyd. Rydyn ni'n credu y dylai pawb allu defnyddio trafnidiaeth sy'n bodloni eu hanghenion; i'w galluogi i fynd i'w gwaith a'u gwersi, i gymdeithasu ac i gysylltu â'r bobl a'r llefydd sy'n annwyl iddynt, i gadw'n iach, i ofalu am eraill ac i gael gofal yn eu tro.

Yn anffodus, mae gormod o bobl yng Nghymru nad yw'r cyfleoedd hyn, gwaith, addysg, iechyd, na'r gymuned o fewn cyrraedd iddynt oherwydd diffyg trafnidiaeth hygyrch.  Mae Senedd ddiwygiedig a Llywodraeth newydd Cymru yn rhoi inni gyfle unigryw i greu system drafnidiaeth newydd, decach sy'n gweithio i bob un ohonom, sy'n eiddo i bob un ohonom, ac sy'n cael ei siapio gan bob un ohonom, ar hynny ar sail mynediad teg i bawb. Rydym am i bob plaid wleidyddol ymuno â ni i ymrwymo i'r weledigaeth hon.



Denbighshire Dial a Ride

# Beth yw Trafnidiaeth Gymunedol?



Atebion cymunedol i anghenion trafnidiaeth sydd heb eu bodloni ydy Trafnidiaeth Gymunedol. Mae elusennau lleol, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol ledled Cymru wedi camu i'r adwy i ddarparu gwasanaethau hygyrch, fforddiadwy a chynaliadwy sy'n darparu cysylltiadau hanfodol ac achubiaeth i bobl sy'n wynebu anfantais, tlodi ac anghydraddoldeb.


O fysys ym Mhen-y-bont ar Ogwr a gwasanaeth galw'r gyrrwr yn y Rhyl i glybiau ceir ym Machynlleth a chludiant i gleifion yn Llanelli, mae Trafnidiaeth Gymunedol yn gwasanaethu pob math o gymunedau, o'n dinasoedd mwyaf i'n pentrefi mwyaf anghysbell, a phobl o bob math, o bobl hŷn ac anabl i blant a phobl ifanc.

Mae Trafnidiaeth Gymunedol yn defnyddio pob math o ddulliau, o fysiau moethus, bysys a bysiau mini i feiciau, ceir a cherbydau aml-bwrpas, ac mae'n mynd â chi ar siwrneiau o bob math, i'r gwaith ac apwyntiadau gofal iechyd ac i ymweld â theulu a ffrindiau.

# Pwy ydy'r Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol?

Mae'r [Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol] yn arwain mudiad Trafnidiaeth Gymunedol ffyniannus. Rydym yn cynorthwyo rhwydwaith o sefydliadau cymunedol sy'n datrys heriau lleol drwy ddatblygiadau arloesol, ffocws ac ymroddiad. Rydym yn elusen a leolir yn y DU, yn sefydliad aelodaeth ac yn gorff dynodedig sy'n rhoi trwyddedau.

Rydym yn cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth arbenigol i dros 102 o aelodau yng Nghymru, ac i gymunedau sy'n ceisio datblygu eu darpariaeth drafnidiaeth eu hunain. Rydyn ni'n credu y dylai pawb allu cael gafael ar drafnidiaeth leol sy'n bodloni eu hanghenion, ni waeth pwy ydyn nhw na ble maen nhw'n byw.




## Ein Blaenoriaethau ar gyfer Sicrhau Trafnidiaeth Deg

Mae mudiad Trafnidiaeth Gymunedol Cymru yn galw ar Aelodau'r Senedd nesaf a Llywodraeth nesaf Cymru i wneud gwahaniaeth gwirioneddol a phendant yn eu hetholaethau ac i'w hetholwyr ar draws Cymru drwy sicrhau Trafnidiaeth Deg. Byddwn yn canolbwyntio ar y tri phrif faes hwn:

1. Buddsoddi mewn Atebion Cymunedol
2. Ei gwneud yn Haws i bobl gael Gafael ar Ofal Iechyd a Chymdeithasol
3. Rhoi Hwb i Weithredu Cymunedol er mwyn yr Hinsawdd

### Aelodau CTA ar draws Cymru

| | |
|---|---|
| Gogledd Cymru | 30 |
| Canolbarth Cymru | 14 |
| De-ddwyrain Cymru | 28 |
| De-orllewin Cymru | 30 |

# Buddsoddi mewn Atebion Cymunedol




Mae Trafnidiaeth Gymunedol yn rhoi hwb i economïau lleol ac yn cyfoethogi ac yn gwella lles cymunedau. Mae'n helpu pobl i ennill a gwario arian yn lleol drwy eu galluogi i fynd i'r ysgol, i'r coleg, i'r brifysgol ac i'r gwaith, yn ogystal ag i'r stryd fawr ac i ganol trefi. Mae'n creu cysylltiadau holl bwysig i bobl a lleoedd, gan chwalu'r rhwystrau sy'n cael eu creu gan leoliadau gwledig, tlodi, a gwybodaeth a llefydd nad ydynt o fewn cyrraedd hawdd. Mae'r drafnidiaeth yn aros dan berchnogaeth a rheolaeth leol ac yn creu swyddi o safon a chyfleoedd i wirfoddoli.

Ni welwyd erioed cymaint o alw am y gwasanaethau hygyrch a chynhwysol y mae ein haelodau yn eu darparu, ac eto mae llawer o weithredwyr yn ei chael hi'n anodd cadw eu gwasanaethau'n fforddiadwy i deithwyr oherwydd costau cynyddol gan gynnwys offer, tanwydd, llafur a cherbydau, a hanes hir o dan-ariannu.


Dolen Teifi

## Rydym yn galw ar Aelodau'r Senedd a Llywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:

- **Rhoi cyllid teg ar gyfer Trafnidiaeth Gymunedol** drwy gyfrwng llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus, a hwnnw'n gyllid aml-flwyddyn, sy'n cadw i fyny â chwyddiant, sy'n cyfrannu at gostau gweithredu craidd ac sy'n cynnig hyblygrwydd i weithredwyr. Rhaid i'r cyllid hwn fod yn dryloyw ac yn gyson ar draws Cymru wrth i ni ddilyn y 'Trywydd at Fasnachfreinio' a thu hwnt.
- **Ymestyn y Cynlluniau Teithio Rhatach Cenedlaethol yn wasanaethau Adran 19 priodol** er mwyn rhoi diwedd ar annhegwch y tocyn bws sy'n docyn mewn enw yn unig i lawer o bobl hŷn, pobl anabl a thrigolion gwledig.
- **Rhoi Dyletswydd Statudol ar Awdurdodau Lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig i gysylltu â chymunedau** i fesur yr angen am drafnidiaeth a thrafod atebion posibl a fyddai'n llywio Cynllun Rhwydwaith Cymru, yn unol â'r 5 ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

# Pam ei fod yn bwysig

Mae **84%** o fudiadau sector gwirfoddol Cymru yn poeni am eu cynaliadwyedd ariannol, gyda 38% yn ystyried cau yn ystod y 6-12 mis nesaf (CGGC 2024).

Mae pobl anabl yn gwneud **38%** yn llai o siwrneiau na phobl nad ydynt yn anabl. Byddai cau'r bwlch hygyrchedd trafnidiaeth yn llwyr i bobl anabl yn y DU yn arwain at fanteision o tua £72.4 biliwn y flwyddyn. (Motability Foundation, 2022).

Mae Trafnidiaeth Cymru yn rhagweld gwariant o **£716m** ar fysiau a threnau ar gyfer 2025/26. Mae'r cyllid craidd ar gyfer Trafnidiaeth Gymunedol drwy Lywodraeth Cymru wedi bod yn sefydlog ar tua **£1.5m** y flwyddyn ers dros ddegawd (TfC, 2025).



**"Mae'n holl bwysig ein bod yn gefnogol i weithio mewn partneriaeth yn ein cymunedau ac yn buddsoddi mewn atebion sydd dan ofal y gymuned i fodloni anghenion lleol gan ein bod i gyd yn gwybod bod cysylltiadau trafnidiaeth yn achubiaeth i'n holl gymunedau gwledig, boed hynny er mwyn cynnal cysylltiadau cymdeithasol, mynd i apwyntiadau iechyd hanfodol neu fynd yn ôl ac ymlaen i'r gwaith neu i gael addysg. Mae trafnidiaeth yn un o anghenion hanfodol a sylfaenol pobl o bob oed yn ein cymunedau ac mae creu partneriaethau gwaith effeithiol gyda'r rheini sy'n gallu cysylltu'r dotiau yn holl bwysig i'r ffordd rydyn ni'n gwneud i'r atebion hynny ddigwydd."**

Lyndsey Campbell-Williams, Prif Swyddog, Medrwn Môn (Cyngor Ynys Môn)




Partneriaeth Ogwen

# Ei gwneud yn Haws i bobl gael Gafael ar Ofal Iechyd a Chymdeithasol

Mae Trafnidiaeth Gymunedol yn ysgafnu'r baich ar ofal cymdeithasol, yn cwtogi rhestrau aros y GIG ac yn atal oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mae'n helpu i atal unigrwydd ac unigedd, yn atal anghenion cymorth clinigol cynyddol, ac yn helpu pobl hŷn i fyw'n dda ac yn hirach yn eu cartrefi eu hunain.

Mae Trafnidiaeth Gymunedol yn galluogi pobl i gyrraedd y feddygfa, i fynd i weithgareddau cymunedol drwy bresgripsiynu cymdeithasol, i'r ysbyty a'r ganolfan ddydd; mae hyn oll yn gwella ansawdd eu bywyd, yn galluogi pobl i gadw eu hapwyntiadau ac yn arbed arian i drethdalwyr. Ac eto, ni chaiff y gwasanaethau hanfodol hyn eu hariannu'n ddigonol, ni chânt eu gwerthfawrogi ddigon ac mae ganddynt y gallu i wneud llawer mwy i helpu GIG Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i helpu ein cymunedau i fod yn iach a theimlo'n dda.






Green Dragon Community Transport

## Rydym yn galw ar Aelodau'r Senedd a Llywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:

- **Sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol yn gweithio mewn partneriaeth â Thrafnidiaeth Gymunedol** i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cludo i gleifion nad ydynt yn achosion brys (NEPTS).
- **Integreiddio trafnidiaeth hygyrch mewn pecynnau gofal cymdeithasol cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** er mwyn galluogi pobl i fyw'n dda ac yn hirach yn eu cartrefi eu hunain.
- **Cynyddu'r defnydd ar Drafnidiaeth Gymunedol a'r cyllid ar ei chyfer drwy bresgripsiynau cymdeithasol ac atal** er mwyn rhoi hwb i iechyd a lles meddwl a chorfforol, mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, unigrwydd ac unigedd, ac ymestyn hyd oes iach disgwyliedig pobl.

# Pam mae hyn yn bwysig?

## 'Mi fyddai'n well gen i farw o ganser na gwneud y siwrnai'

- gwrthodwyd NEPTS i un o drigolion Gwent i fynd i apwyntiadau cemotherapi oherwydd ei bod angen i ofalwr fynd gyda hi. Mae hi bellach yn cael ei chefnogi gan brosiect Trafnidiaeth at Iechyd CTA (CTA 2024).

Rhagwelir mai pobl 65 oed neu hŷn fydd i gyfrif am bron i

**chwarter cyfanswm poblogaeth Cymru**

erbyn canol 2032, o'i gymharu â 21.5% yng nghanol 2022. Erbyn 2060, rhagwelir y bydd y boblogaeth 65 oed neu hŷn yng Nghymru yn cyrraedd dros filiwn (ONS, 2022).

**Dywedodd dros chwarter**

y rhai a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi colli apwyntiad iechyd neu wedi bod yn hwyr yn cyrraedd, oherwydd problemau gyda thrafnidiaeth (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 2021).

**Ceir bwlch o 17 mlynedd**

mewn hyd oes disgwyliedig i fenywod sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, o'i gymharu â'r rhannau lleiaf difreintiedig o'r wlad (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022).





**"Mae Dolen Teifi bellach yn darparu miloedd o siwrneiau sy'n ymwneud ag iechyd bob blwyddyn i bobl nad ydynt yn gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, tacsis na gwasanaeth cludo cleifion y GIG. Ychydig flynyddoedd yn ôl yn unig, doedden ni'n darparu dim. Mae'r galw'n parhau i gynyddu, ac rydym yn llenwi'r bylchau dwfn a adawyd gan doriadau i'r ddarpariaeth statudol gan gynnwys newid y meini prawf cymhwyso, canslo trafnidiaeth y GIG ar y funud olaf, neu pan fo canoli gwasanaethau yn gorfodi pobl i wneud siwrneiau hirach sy'n amhosibl eu gwneud heb gymorth. Mae pob achos o ganslo/gwrthod yn erydu ymddiriedaeth, yn gwneud teuluoedd yn bryderus, ac yn ychwanegu beichiau ariannol, ac nid oes dim dewis ond galw ar y sector gwirfoddol.**

**Rydym eisoes yn rhoi cymhorthdal i wasanaethau statudol drwy oriau gwirfoddoli di-dâl, prisiau is drwy gymorthdaliadau, a chostau sefydliadol cudd. Mae rhywbeth mawr o'i le yma. Nid yw'n deg nac yn gynaliadwy disgwyl i'r sector gwirfoddol ysgwyddo cyfrifoldebau statudol heb fuddsoddiad priodol."**

Rod Bowen, Swyddog Datblygu, Dolen Teifi (Ceredigion a Sir Gaerfyrddin)

# Rhoi Hwb i Weithredu Cymunedol er mwyn yr Hinsawdd




Mae Trafnidiaeth Gymunedol yn mynd i'r afael â newid hinsawdd ac yn gefnogol i'r mudiad Pontio Teg i sero net, mae hyn yn hanfodol pan fydd dros 22% o aelwydydd Cymru yn byw mewn tlodi. Mae'n grymuso pobl i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy drwy ddarparu bysiau lleol fforddiadwy a chynhwysol, ceir i'w rhannu a beiciau i'w rhannu mewn cymunedau trefol a gwledig, gan leihau'r siwrneiau mewn ceir preifat, llygredd aer ac allyriadau carbon yn rhai o'r cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu leiaf yng Nghymru.

Ac eto, mae diffyg uchelgais a chefnogaeth gan y llywodraeth yn rhwystro gweithredu cymunedol er mwyn yr hinsawdd. Er mwyn osgoi gadael pobl ar ôl yn y cyd-ymdrechion i addasu i'r argyfwng hinsawdd a natur, mae angen Pontio Teg sy'n cefnogi pobl i sefydlu atebion trafnidiaeth sy'n cael eu darparu'n lleol, gyda buddsoddiad cynaliadwy mewn trafnidiaeth gymunedol sy'n cydnabod y gwerth a'r cyfraniad unigryw y mae Trafnidiaeth Gymunedol yn gallu ei wneud ac yn ei wneud.



Dolen Teifi

## Rydym yn galw ar Aelodau'r Senedd a Llywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:

- ✓ **Ehangu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy cymunedol** ym mhob cymuned yng Nghymru.
- ✓ **Buddsoddi yn ymdrechion Trafnidiaeth Gymunedol i symud at fflydoedd heb allyriadau** a datblygu rhwydwaith gwefru cerbydau trydan Cymru mewn partneriaeth â'r mudiad Trafnidiaeth Gymunedol, er mwyn bodloni anghenion gweithredwyr lleol a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.
- ✓ **Sefydlu cronfa newydd ac amserlen glir** i annog Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac Awdurdodau Lleol i neilltuo unwaith eto ofod ar ffyrdd i gynlluniau blaenoriaeth bysiau, palmentydd lletach, lonydd beiciau a llefydd i barcio beics ar y stryd, er mwyn galluogi mynediad teg at well dewisiadau i bawb.

# Pam mae hyn yn bwysig?

Ar hyn o bryd, mae trafnidiaeth yn cyfrif am **16%** o'r holl allyriadau carbon yng Nghymru, a dyma'r sector sy'n allyrru'r lefelau nwyon tŷ gwydr trydydd uchaf (Llywodraeth Cymru 2021).

**Mae un oedolyn mewn wyth** wedi methu â gwneud siwrnai hanfodol - gan gynnwys i'r gwaith ac apwyntiadau iechyd - oherwydd na allent fforddio'r gost (Sefydliad Bevan, 2024).

Mae **61%** o bobl Cymru o blaid gweithredu mesurau sy'n rhoi blaenoriaeth i fysiau (CPT 2021).

Mae dros **75%** o fudiad Trafnidiaeth Gymunedol Cymru yn gweithredu ar newid hinsawdd, drwy drafnidiaeth i'w rhannu, llogi e-feiciau, tanwyddau amgen, a datgarboneiddio'u fflyd (CTA 2025).






**"Nod ganolog Awel Aman Tawe ydy mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chefnogi cymunedau cydnerth. Nid elfen ychwanegol ddymunol ydy gweithredu cymunedol ar newid hinsawdd; mae'n elfen hanfodol er mwyn cyrraedd ein nodau hirdymor a sicrhau dyfodol cynaliadwy i'n hardal.**

**Mae newid hinsawdd yn effeithio ar bawb, ond mae'r heriau a'r cyfleoedd penodol yn amrywio yn ôl lleoliad. Mae cynlluniau cymunedol fel ein un ni mewn sefyllfa unigryw i ddeall y cyd-destun lleol. Mae hyn yn golygu bod atebion yn cael eu teilwra'n unol ag anghenion penodol ein cymuned, gan roi sylw i faterion fel cael gafael ar drafnidiaeth wledig, bod yn agored i dywydd eithafol, neu ddiffyg adnoddau'n lleol. Pan fo'r gymuned yn gwneud ei rhan o'r gwaelod i fyny, maen nhw'n hawlio perchnogaeth a chyfrifoldeb dros y cynlluniau. Mae hyn yn cynyddu'n aruthrol y tebygolrwydd o lwyddiant a chynaliadwyedd hirdymor, gan fod yr atebion yn cael eu cyd-greu yn hytrach na'u gorfodi."**

Sachá Petrie, Swyddog Datblygu Cymunedol, Awel Aman Tawe (Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Sir Gaerfyrddin)

# O’r Weledigaeth i’r Realiti

**Pan fydd atebion wedi’u gwreiddio yn anghenion y gymuned ac yn cael eu hysgogi ganddynt, mae’n bosibl ymateb i’r anghenion hynny y foment honno. Pan gaiff atebion eu dylunio gan ystyried y lefel uchaf o angen, yna maent yn hygyrch i bawb. Pan fuddsoddir mewn atebion cymunedol sy’n rhoi pobl o flaen elw, mae pob un ohonom yn elwa.**

Yn y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol, nid chwilio am goeden arian hud ydyn ni. Yr oll a wnawn yw datgan bod anghenion pawb yn bwysig, ac rydyn ni’n credu y dylai Llywodraeth Cymru fod yn blaenoriaethu buddsoddiadau a chymorth mewn ffyrdd sydd o fudd i bob un ohonom. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i wleidyddiaeth ac at wraidd cymunedau cryfach - mae mynediad cyfartal at drafnidiaeth yn rhan hanfodol o sicrhau mai Cymru yw’r lle gorau i fyw, y lle gorau i weithio, y lle gorau i gael eich magu a’r lle gorau i heneiddio.

Rhaid i Gymru sy’n addas ar gyfer y dyfodol gynnwys opsiynau trafnidiaeth hygyrch, cynhwysol, carbon isel sy’n ehangu cyfleoedd ac yn gwella siawns pawb mewn bywyd.

I drafod ymhellach neu i gael cymorth gan y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol ar sut gallai Trafnidiaeth Deg fod yn rhan o’ch Maniffesto chi ac mewn Rhaglen Lywodraethu bosibl i’r dyfodol, cysylltwch ar gemma@ctauk.org.



Welsh Border Community Transport












RWY'N YRRWR
GWIRFODDOL
I AM A VOLUNTEER
DRIVER



community transport association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL

0161 351 1475
wales@ctauk.org
www.ctauk.org

x.com/CTAUK1

facebook.com/CTAUK1

linkedin.com/company/community-transport-association-uk

© CTA 2025
Sefydliad Corfforedig Elusennol a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (1002222)